**Tasg 2**

# Ansawdd bywyd

Mae'r darn yn dweud bydd galluogi cŵn i reoli pa sianel maen nhw'n ei gwylio yn "yn siŵr o wella ansawdd bywyd pob ci!"

1. Trafodwch y cwestiynau hyn mewn grŵp:
   a. Beth yw'ch barn chi am y ddyfais rheoli o bell ar gyfer cŵn? Rhowch resymau dros eich ateb.
   b. Sut mae gwella ansawdd bywyd cŵn ac unrhyw anifail anwes arall?

2. Sut mae gwella ansawdd eich bywyd chi? Meddyliwch am hyn a gwnewch nodiadau, e.e.
   - llai o waith cartref
   - mwy o oriau hamdden
   - mynd allan mwy
   - newid ffordd o fyw
   - dechrau hobi newydd
   - gwneud mwy o chwaraeon amrywiol
   ac ati.

Ysgrifennwch lythyr at gylchgrawn ar gyfer pobl ifanc yn nodi sut gallech chi – a phobl ifanc eraill – wella ansawdd eich bywyd chi.